CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

At: Aelodau'r Pwyllgor Safonau

Dyddiad: 17 Hydref 2013

Rhif Union: 01824 706204

ebost: dcc_admindenbighshire.gov.com.uk

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 25 HYDREF 2013** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1B, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1: GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu sy'n rhagfarnu yn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**4 YSTYRIED SYLWADAU A PHENDERFYNIAD TERFYNOL ADRODDIAD A BARATOWYD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU DAN ADRAN 71(2)(C) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000 (REF 2871/201002627)** (Tudalennau 5 - 16)

Ystyried canfyddiadau Adroddiad Ymchwiliad yr Ombwdsmon (a gylchredwyd yn flaenorol) ynglŷn â'r honiad o beidio â chydymffurfio â Chod Ymarfer y Cyngor ac ystyried y sylwadau a dderbyniwyd gan y cyn Gynghorwr yn ymateb i'r honiad, ac i wneud penderfyniad terfynol ar y mater.

**5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 17 - 26)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 7 Mehefin, 2013 (mae copi ynghlwm).

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2012/13** (Tudalennau 27 - 98)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) sy'n rhoi gwybod i Aelodau am Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2012/13.

**7 CAP AR INDEMNIAD AELODAU AR GYFER CWYNION COD YMDDYGIAD** (Tudalennau 99 - 104)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) sy'n gofyn am gael argymell i'r Cyngor y dylid capio'r indemniad sydd ar gael i'r Aelodau sy'n ymwneud â gwrandawiadau Cod Ymddygiad ar uchafswm o £20,000.

**8 MYNYCHU CYFARFODYDD**

Nodi presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn y Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

**9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau am 10.00am ar ddydd Gwener 22 Tachwedd 2013 yn Ystafell Gynadledda 1b, Neuadd y Sir, Rhuthun.

**RHAN 2: MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 12 ac 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**10 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000** (Tudalennau 105 - 106)

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) sy’n darparu trosolwg o’r cwynion yn erbyn Aelodau sydd wedi eu cofnodi gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**AELODAETH**

Aelodau Annibynnol:
Y Parch. Wayne Roberts, Ian Trigger (Cadeirydd), Ms Margaret Medley a/ac Mrs Paula White

Aelod Cyngor Tref/Cymuned:
Y Cynghorydd David E Jones

Cynghorwyr Sir:
Y Cynghorydd Bill Cowie
Y Cynghorydd Colin Hughes

**COPIAU I’R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a’r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned